Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas

**Sain Nicolas**
**Bro Morgannwg**
**CF5 6SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Hydref 2011**

**gan**

**Mr Peter Mathias**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn y pentref o'r un enw ym Mro Morgannwg sef yr Awdurdod Lleol (ALL). Mae'r ysgol yn agos at faestrefi gorllewinol Caerdydd ble mae 76% o'r disgyblion yn byw. Mae 114 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 16 ohonynt o oedran derbyn. Cynyddodd y nifer ar y gofrestr ychydig ers yr arolwg diwethaf, ddigwyddodd yn nhymor yr hydref 2005. Mae'r ysgol ar ddau safle nid nepell oddi wrth ei gilydd.Defnyddir yr hen adeilad Fictoraidd gwreiddiol gan ddisgyblion yng nghyfnod cynnar y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweddill o'r disgyblion mewn adeilad mwy newydd agorwyd yn chwechdegau hwyr.

Pan gyrhaeddant yr ysgol, mae lefelau sgiliau sylfaenol yn amrywio'n fawr ac ar gyfartaledd yn is na'r hyn sydd i'w ddisgwyl a'i ganfod ymysg disgyblion o'r oedran hwn. Mae gan yr ysgol lefel uchel o fudoledd disgyblion gyda thua 55% o'r disgyblion un ai yn ymuno neu adael yr ysgol ar adegau gwahanol i'r cyffredin.

Daw'r disgyblion yn gyffredinol o gefndiroedd difreintiedig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, dengys ffigyrau mai dim ond 13% sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Saesneg yw prif iaith pob un o'r disgyblion ac nid oes yr un ohonynt â'r Gymraeg fel iaith y cartref. Mae bron pob un ohonynt o gefndir gwyn, Prydeinig. Arenwir tri deg dau (28%) o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn ffigwr uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae pum disgybl dan ofal yr ALL. Ni waharddwyd yr un disgybl yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010- 2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yw £3,241, sy'n cymharu gydag uchafswm o £3,491 ac isafswm o £2,756 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 3edd uchaf o'r 46 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, yn aml o bwynt yn is na'r pwynt cychwyn disgwyliedig;
- mae gan yr ysgol ethos cefnogol a gofalgar iawn;
- mae arweinyddiaeth yr ysgol yn dda;
- mae cefnogaeth gynnar ar gyfer ADY yn effeithiol ac wedi ei drefnu'n dda; ac
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gweithio'n galed.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bu cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolwg diwethaf;
- ceir dadansoddiad gofalus o wybodaeth asesu er mwyn codi safonau;
- mae adroddiad hunan werthuso'r ysgol yn fanwl gywir ac yn arenwi'n gywir gryfderau'r ysgol a'r ardaloedd ar gyfer gwelliant; ac
- mae'r corff llywodraethu a'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n agos ac yn rhannu ymrwymiad cadarn i fynd i'r afael ag anghenion pellach yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas i:

A1 gryfhau hyder athrawon yn y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn codi safonau ymhellach;

A2 gael disgwyliadau uwch o'r hyn y dylai'r mwyaf galluog yn y Cyfnod Sylfaen ei gyflawni, yn enwedig mewn darllen a mathemateg;

A3 barhau i ddatblygu gweithdrefnau asesu yn y Cyfnod Sylfaen, er mwyn ymglymu disgyblion yn fwy yn asesu eu dysgu eu hunain; a

A4 chymryd camau i wella darpariaeth awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen ac yn yr ardal chawarae arwyneb caled yng nghyfnod allweddol 2

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau mewn siarad, gwrando ac ysgrifennu'n dda. Mae menter fawr ddiweddar i wella ysgrifennu wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae medrau darllen yn dda a gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u gwybodaeth o'r synau a wna llythrennau i ddarllen geiriau newydd. O waelodlin isel yn y Cyfnod Sylfaen, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu lefel dda o rugldder gan ddarllen testunau sy'n gynyddol gymhleth.

Mae safonau mewn rhifedd yn dda ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau yn dda ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion mwyaf galluog a thalentog yn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn ddigon uchel mewn llythrennedd a rhifedd.. Mae safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n ddigonol; nid yw'r medrau wedi eu defnyddio'n llawn i ymestyn dysgu ar draws y cwricwlwm ymhob dosbarth.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r canlyniadau yn yr asesiadau athrawon cenedlaethol ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed wedi bod yn fras yn debyg i rai ysgolion lleol a chenedlaethol a gwnaeth y disgyblion gynnydd da. Fodd bynnag, o'u cymharu ag ysgolion gyda'r un gyfran o ddisgyblion gyda phrydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau yn is na'r cyfartaledd. Mae perfformiad yr ysgol hefyd yn gyffredinol ychydig yn is na'r mwyafrif o ysgolion yn ei theulu o ysgolion.

Ers 2009 mae safonau yng nghyfnod allweddol 1 wedi gwella i'r un raddfa a'r rhan fwyaf o ysgolion lleol a chenedlaethol. Tra bod merched yn perfformio ychydig yn well na'r bechgyn mewn rhai ardaloedd, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn ardaloedd eraill. Nid oes patrwm clir.

Mae canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod y gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg yn agos i'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn uwch mewn gwyddoniaeth.. Yn 2011 roedd yr ysgol yn seithfed o fewn ei theulu o ysgolion mewn Saesneg ac yn bumed mewn mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu canlyniadau 2011 gydag ysgolion gyda chyfran debyg o brydau ysgol am ddim , roedd y canlyniadau mewn Saesneg yn isel , yn uwch na'r cyfartaledd mewn mathemateg ac yn llawer uwch mewn gwyddoniaeth.

Yn 2011 roedd y canlyniadau ar lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg yn unol â rhai'r flwyddyn cynt ac yn uwch mewn gwyddoniaeth . Roedd canlyniadau ar y lefel 5 uwch yn unol â chyfartaleddau cenedlaethol, ond yn is na chyfartaleddau lleol a'r teulu mewn Saesneg a mathemateg ac yn is na'r cyfartaleddau hyn mewn gwyddoniaeth. Yn yr asesiadau hyn, fel yn flaenorol, nid oedd amrywiad arwyddocaol o fechgyn o'u cymharu â merched. Yn gyffredinol, mae disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda.

Mae safonau yn natblygiad yr iaith Gymraeg yn dda. Mae nifer o ddisgyblion yn datblygu ynganiad a sain dda. Ymatebant yn dda i ystod o destunau a chyflawna nifer y safonau disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae lles pob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn dda. Caiff materion iechyd flaenoriaeth uchel ac mae'r disgyblion yn deall yn llwyr beth mae angen iddynt ei wneud i gadw'n iach.

Mwynha disgyblion ddod i'r ysgol a chyfranogant yn llawn yn y gwersi. Mae lefelau presenoldeb yn dda ac yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol; mae'r tueddiad ar i fyny yn unol â'r teulu lleol o ysgolion. Does bron dim hwyrni ac mae'r gwersi'n dechrau ar amser.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gweithio'n galed.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd, yn ysgwyddo cyfrifoldebau ac maent ynghlwm yn weithredol wrth fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan aelodau rôl arwyddocaol mewn gwneud penderfyniadau.

Mae disgyblion yn dangos parch mawr at eu cyfoedion ac yn dangos gofal a phryder mawr o'i gilydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Fe'i hadolygwyd yn drylwyr yn ddiweddar i adlewyrchu pwyslais ar ddatblygu'r medrau ar gyfer dysgu'n systematig. Trefnir themâu astudio yn ofalus ar gylch dwy flynedd i fynd i'r afael â'r anawsterau a gysylltir gyda chynllunio ar gyfer dosbarthiadau oedran cymysg.

Diwallir anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag angen cefnogaeth ychwanegol mewn darllen. Nodwedd gref yw'r cynllunio ar gyfer cwricwlwm "gwerthoedd" sy'n treiddio'r ddarpariaeth addysg gorfforol a chymdeithasol.

Ceir trefnyddion medrau gaiff eu defnyddio'n dda ar gyfer y datblygiad systematig o fedrau disgyblion mewn dysgu.

Mae'r cluniaduron a brynwyd yn ddiweddar iawn wedi galluogi'r ysgol i ddarparu cyfleoedd gwell i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi dysgu.. Fodd bynnag , nid yw'r rhain wedi eu datblygu digon.

Darpara'r ysgol ystod dda o glybiau a gweithgareddau ar ôl yr ysgol, gaiff eu trefnu'n dda a'u mynychu'n dda gan ddisgyblion. Maent yn gwella ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chânt effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn dda. Dysgir y Gymraeg ymhob dosbarth ac fe ddyrennir digon o amser i sicrhau cynnydd da. Datblyga'r

disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu'r Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae trefniadau sydd wedi eu sefydlu'n dda yn sicrhau y cyfunir y Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus i mewn i themâu a thestunau a datblyga'r disgyblion wybodaeth dda o hanes a diwylliant Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy'n dda. Mae disgyblion yn eiddgar i ail-gylchu ac yn gwybod pwysigrwydd diogelu adnoddau. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddarpariaeth er mwyn i bob disgybl ddeall anghenion ac amgylchiadau'r rhai mewn gwledydd llai datblygedig.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Medda'r athrawon yn y Cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda o sut i ddarparu ar gyfer disgyblion o'r oedran hwn ac i sicrhau y seilir eu dysgu o amgylch profiadau ymarferol cyfoethog. Hyrwyddant yn llwyddiannus annibyniaeth a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan yr athrawon berthynas gadarnhaol ac adeiladol gyda'u disgyblion, sy'n gweithio o wirfodd ac yn frwdfrydig, oherwydd gwyddant y gwerthfawrogir eu cyfraniadau.

Mewn nifer o wersi medda'r athrawon wybodaeth bynciol dda iawn gan drosglwyddo hyn ymlaen i'w disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth edrych ar arteffactau Fictoraidd. Anogant y disgyblion i gyd i ganfod pethau drostynt eu hunain ac fel canlyniad, mae bron pob un ohonynt yn cyflawni'n dda.

Cydweddir adnoddau'n dda ag anghenion yr holl ddisgyblion. Fe'u defnyddir yn dda i ysgogi diddordeb y disgyblion, Ble mae diffygion, does dim digon o gyflymder i'r dysgu ac ni wneir yn glir y disgwyliadau o'r hyn y dylid ei gyflawni. Ni chydweddir gwaith pob amser gydag anghenion disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi nid oes gan yr athrawon ddigon o hyder i gydio mewn cyfleoedd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd da o ddata priodol i nodi a thracio cynnydd disgyblion unigol. Gwneir defnydd da o wybodaeth asesu i leoli'n union faterion manwl ac i nodi tueddiadau mewn tan berfformio; nodir yn rymus flaenoriaethau. Mae athrawon a staff cefnogi yn cydweithio'n agos i drafod cynnydd disgyblion unigol ac yna cynllunio'n briodol.

Mae athrawon disgyblion iau yn darparu adborth llafar adeiladol, ond nid ydynt yn rhoi digon o anogaeth iddynt er mwyn iddynt sylweddoli sut y gallent wella eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 mae'r marcio yn gyson ac yn darparu cyngor manwl priodol ac anogaeth i'r disgyblion er mwyn adeiladu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen arnynt i lwyddo.

Mae adroddiadau i rieni a gofalwyr yn glir ac yn llawn gwybodaeth, ac fe deimla'r rhan fwyaf ohonynt y cânt wybodaeth ddigonol am gynnydd eu plant.

.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth dda ar gyfer pob agwedd o iechyd a diogelwch. Mae'r polisïau gwrth fwlio a gwrth fwlio seiber yn fanwl ac wedi eu gosod yn arbennig o dda. Delia'r ysgol gydag unrhyw achos o fwlio yn syth ac mewn modd cadarnhaol. Mae'n hyrwyddo ymddygiad da a mwynha'r disgyblion fod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'n weithredol datblygiad personol y disgyblion, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae polisi addysg gorfforol a chymdeithasol a system gofal bugeiliol effeithiol. Mae'r pwyslais ar werthoedd yn cyfrannu at yr ethos digyffro.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae darpariaeth effeithiol a meddylgar ar gyfer disgyblion gydag ADY. Mae gan gynlluniau addysg unigol disgyblion dargedau , gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cyfddyddio. Ceir ymyriadau, sydd wedi eu trefnu'n dda, i gynorthwyo gydag anghenion penodol a gweithdrefnau a cheir gweithdrefnau i arenwi disgyblion sy'n debygol o fod angen cefnogaeth. Caiff rhieni disgyblion gydag ADY wybodaeth dda am gynnydd eu plant. Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen nid yw'r disgwyliadau ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon uchel.

Gweithia'r ysgol yn dda mewn partneriaeth gydag ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i sicrhau y diwallir anghenion pob disgybl

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynnes, gofalgar, deuluol; hyrwydda gynhwysiad a gweithia pob aelod o staff yn galed i sicrhau cyfleoedd cyfartal. Mae'r ysgol yn dynodi ac yn dathlu amrywiaeth cefndiroedd y disgyblion yn llwyddiannus gyda phwyslais mawr ar oddefgarwch. Mae polisïau a gweithdrefnau yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol da ac mae'r ysgol yn diwallu eu dyletswyddau o dan Ddeddfau Cydraddoldeb Hiliol a Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd.

Mae'r prif adeilad mewn cyflwr da, ond mae'r gofod o fewn yr ysgol yn gyfyngedig iawn. Yn gyffredinol,defnyddir yr adeiladau yn dda i fwyhau addysgu a dysgu. Mae arddangosfeydd lliwgar yn gwella'r amgylchedd.

Yn y brif ysgol mae'r toiledau'n fodern ac wedi eu haddurno'n dda; fodd bynnag, mae diffyg awyru yn un o doiledau'r bechgyn.

Mae'r adeilad isaf yn ddigonol, ond nid yw'r buarth yn ddigon ysgogol na chyffrous.

Mae'r cyfleusterau allanol, yn enwedig yr ardd dawel, cae chwarae'r ysgol a'r coetir yn nodweddion da iawn ac fe'u defnyddir yn dda i wella addysgu a dysgu. Fodd bynnag, anwastad yw'r prif fuarth ac mae'r arwynebedd wedi chwalu.

Yn gyffredinol mae digon o adnoddau o ansawdd dda i addysgu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar iawn mae'r ysgol wedi gwella eu darpariaeth ar gyfer TGCH.

Mae'r llyfrgell wedi ei chyflenwi'n dda , ond caiff hefyd ei defnyddio fel man dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff yr ysgol ei harwain yn bwrpasol gan y pennaeth sydd yn canolbwyntio ar godi safonau a pharhau i wella ansawdd y dysgu. Mae llawer wedi ei gyflawni wrth werthuso yn rymus iawn y wybodaeth yr ymgasgla'r ysgol ar safonau cyrhaeddiad disgyblion.Defnyddir hyn yn effeithiol i bennu blaenoriaethau addysgol ac i sefydlu cyfeiriad strategol hir dymor yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi datblygu'n llwyddiannus iawn uwch dîm arwain ymroddedig, sy'n chwarae rhan lawn wrth gynllunio'r ffordd ymlaen ac wrth weithio gydag athrawon eraill i sicrhau bod yr ysgol yn darparu'n dda ar gyfer ei disgyblion.

Mae cysylltiadau gyda'r corff llywodraethu yn gadarn, mae gan y cadeirydd wybodaeth dda ac yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth i fynd i'r afael ag anghenion yr ysgol ac i achosi newid.

Mae'r llywodraethwyr yn ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol ac yn chwarae rhan lawn yn ei bywyd. Mewn modd adeiladol maent yn galw'r uwch dîm rheoli'r ysgol i gyfrif

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunan werthuso'r ysgol yn gadarn ac yn adlewyrchu ymdriniaeth ysgol gyfan. Defnyddia staff a llywodraethwyr ystod eang o dystiolaeth briodol, gan gynnwys gwerthusiadau pynciol, trwy gyfrwng gweithdrefnau monitro, dadansoddi data ar berfformiad disgyblion, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion.

Ymofynnir safbwyntiau disgyblion trwy waith cyngor yr ysgol. Sefydlwyd diwylliant o gydweithio, sy'n cynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid, i wella darpariaeth a pherfformiad. Golyga hyn bod gan yr ysgol asesiad cywir o'i chryfderau a'r ardaloedd ar gyfer datblygu.

Mae mentrau sydd wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer gwerthuso ansawdd yr addysgu a dysgu ymhob pwnc a phrosesau effeithiol ar gyfer arweinwyr pwnc i wella darpariaeth yn systematig. Defnyddir y wybodaeth a geir i gynllunio a darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar sail unigol neu ysgol gyfan.

Monitrir cynlluniau datblygu pynciol yn erbyn targedau clir sydd wedyn yn arwain at gynlluniau gwella ysgol gyfan. Sicrha hyn gyswllt da rhwng prosesau hunan werthuso a blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y cynllun datblygu ysgol. Monitrir a gwerthusir cynnydd yn rheolaidd gan y tîm staff.

Ymdriniwyd â holl argymhellion yr arolwg blaenorol yn briodol.

Mae staff wedi bod ynghlwm gyda nifer gymunedau dysgu proffesiynol allanol gan ganolbwyntio ar asesu ar gyfer dysgu a llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gweithia'r ysgol yn dda gyda rhieni a gofalwyr ac mae'n defnyddio technoleg fodern i roi gwybodaeth iddynt am weithgareddau a digwyddiadau ysgol. Mae'r clwb brecwast, gweithgareddau ar ôl yr ysgol a'r gwasanaeth bws mini i gyd yn cynorthwyo i gefnogi teuluoedd. Mae cysylltiadau wedi eu sefydlu'n dda gyda nifer o ganolfannau cyn-ysgol leol ac mae gweithdrefnau effeithiol i dderbyn disgyblion yn ddiffwdan i'r ysgol.

Mae cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion lleol yn sicrhau bod athrawon yn rhannu profiadau ac arfer dda. Mae gan y pennaeth hefyd gysylltiadau gydag ysgolion yr Eglwys yng Nghymru mewn ardal ehangach.

Mae cyslltiadau cryf gyda Thŷ Dyffryn, sy'n caniatáu mynediad am ddim i ddisgyblion yr ysgol ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau penodol a drefnir gan yr ysgol. Gwneir defnydd da o Erddi Dyffryn i wella'r cwricwlwm. Mae cysylltiad gyda banc lleol wedi bod yn llwyddiannus i gefnogi prosiectau menter.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau a sefydliadau i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ac mae'n mentora darpar athrawon a myfyrwyr gofal plant ar lefelau amrywiol yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda'r ysgol uwchradd sy'n derbyn y plant ac mae mentrau diweddar wedi cryfhau'r bartneriaeth hon. Mae trefniadau i gytuno ar gwblhau asesiadau athrawon cyfnod allweddol 2 wedi ei sefydlu'n dda a byddant o wasanaeth i gadarnhau barn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau da a phrofiadol ar gyfer pob dosbarth. Mae staff cefnogi hefyd yn brofiadol ac â chymhwyster ac wedi eu hyfforddi'n briodol; fe'u trefnir yn effeithiol i gyflawni cefnogaeth a dargedir.

Mae gan bob aelod o staff fynediad i hyfforddiant parhaus a gysylltir â blaenoriaethau'r ysgol, blaenoriaethau personol ac ardaloedd ar gyfer gwella yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae trefniadau ar gyfer darparu amser i athrawon i gynllunio, paratoi ac asesu wedi eu trefnu'n dda ac fe wneir defnydd effeithiol o'r amser a ddarperir. Mae clerc yr ysgol yn sicrhau rhediad llyfn gweithdrefnau gweinyddol yr ysgol. Nid yw pob athro yn hyderus yn defnyddio'r adnoddau cyfrifiadurol newydd.

Mae'r corff llywodraethu a'r pennaeth yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Rhoir ystyriaeth ofalus i'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol ac fe dargedir cyllido yn briodol.

Wrth ystyried y cynnydd da a wneir gan y mwyafrif o'r disgyblion . mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae'r disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda lefelau o fedrau sylfaenol ac aeddfedrwydd sydd yn aml yn is na'r lefelau a ddisgwylir ac a ganfyddir ymysg disgyblion o'r oedran hyn.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, dros y pedair blynedd diwethaf, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 2 ( y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg) yn agos i'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol; mewn gwyddoniaeth roeddynt yn uwch. Mae'r canlyniadau wedi bod yn is na'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn y teulu ar draws Cymru., ond maent yn cydweddu'r safle a ddisgwyliwyd ar gyfer yr ysgol yn y teulu. O gymharu'r canlyniadau ag ysgolion gyda'r un gyfran sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim , roedd y canlyniadau yn 2011 yn isel mewn Saesneg ac o dan y cyfartaledd mewn mathemateg ond yn llawer uwch na'r cyfartaledd mewn gwyddoniaeth.; roedd y canlyniadau pan y'u cyfunir yn is. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r gyfran uchel o ddisgyblion yn y grŵp a arenwir fel rhai ag ADY. Mae'r data dibynadwy arall a gesglir gan yr ysgol yn nodi bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

Nid oedd amrywiad arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn o'i gymharu â merched. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 3 uwch ymhob un o'r tri phwnc yn isel.

Mae canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod y gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg yn agos i'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn uwch mewn gwyddoniaeth.. Yn 2011 roedd yr ysgol yn seithfed o fewn ei theulu o ysgolion mewn Saesneg ac yn bumed mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r canlyniadau cyfunol yn rhoi'r ysgol yn seithfed; mae hyn yn cydweddu gradd o her gymharol yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion eraill yn y teulu. O gymharu canlyniadau 2011 gydag ysgolion gyda chyfran debyg o brydau ysgol am ddim , roedd y canlyniadau mewn Saesneg yn isel , yn uwch na'r cyfartaledd mewn mathemateg ac yn llawer uwch mewn gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau cyfunol yn is.

Yn 2011 roedd y canlyniadau ar lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg yn unol â rhai'r flwyddyn cynt ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau cyfunol yn is.

Roedd canlyniadau ar y lefel 5 uwch yn unol â chyfartaleddau cenedlaethol, ond yn is na chyfartaleddau lleol a'r teulu mewn Saesneg a mathemateg ac yn is na'r cyfartaleddau hyn mewn gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau cyfunol ar y lefel yma'n is.

Yn yr asesiadau hyn, fel yn flaenorol, nid oedd amrywiad arwyddocaol o fechgyn o'u cymharu â merched. Yn 2011 nid oedd yr un disgybl â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim gymerodd ran yn yr asesiadau. Yn y flwyddyn flaenorol roedd y disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n well na'r rhai nad oedd â'r hawl i'w derbyn. Yn gyffredinol, mae disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r rhai a arenwir fel disgyblion mwy

galluog a thalentog bob amser yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir erbyn eu bod yn saith mlwydd oed.

Mae safon y gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac a ganfuwyd yn ystod arsylwadau dosbarth yn cadarnhau canlyniadau asesiadau athrawon cenedlaethol ar gyfer disgyblion saith ac un ar ddeg mlwydd oed.

Dros amser, mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cychwyn yr ysgol yn y dosbarth derbyn ac yn parhau yn yr ysgol nes eu bod yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn gwneud cynnydd da ac yn aml yn uwch na'r disgwyliadau a osodir ar eu cyfer.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd dau ddeg pump o rieni'r holiadur. Roedd gan nifer safbwyntiau cadarnhaol o'r ysgol. Roedd pawb yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fodlon â'r ysgol, yn meddwl bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac y cawsant help i ymsefydlu yn gyflym ar ôl cychwyn yn yr ysgol.

Roedd pawb yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Roeddynt yn meddwl bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Roedd pawb yn meddwl bod yr addysgu'n dda a bod staff yn disgwyl i'w plant i weithio'n galed a gwneud eu gorau. Roedd staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch.

Roedd pob un o'r rhieni ymatebodd yn meddwl bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Roeddynt yn meddwl bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Roedd pob un yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem ac yn deall gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â delio â chwynion. Teimlant fod ystod dda o weithgareddau , teithiau ac ymweliadau. Roedd pawb yn meddwl bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Roedd  ambell un yn gofidio am ymddygiad disgyblion, disgwyliadau staff o'u plant, gwaith cartref, y gefnogaeth ychwanegol a ddarperir, y wybodaeth a dderbyniant am gynnydd eu plant a'r modd y mae'r ysgol yn cynorthwyo eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i fod yn barod ar gyfer yr ysgol uwchradd,

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd pum deg saith o ddisgyblion yr holiadur. Roedd gan bron pob un ohonynt safbwyntiau cadarnhaol am nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd iddynt. Roedd bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlio ac yn eu dysgu i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Heblaw am ambell un roedd pawb yn meddwl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd..

Roedd bron pob un yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn pe baent yn canfod y gwaith yn galed, yn meddwl bod eu gwaith cartref o help iddynt a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron.

Teimla lleiafrif nad oedd disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda, yn eu rhwystro rhag gwneud cynnydd ac yn ymddwyn yn wael amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Gill Harrison | Arolygydd Tîm |
| Mrs Rhiannon Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Justine Baldwin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Robert Williams | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |